



CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor • 5 Stryd Fawr • Blaenau Ffestiniog • Gwynedd • LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ☒ cyngortrefffestiniog@yahoo.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWDYD NOS IAU 11^{eg} o CHWEFROR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cyngorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cyngorwyr: Annwen Daniels Mel Goch ap Meirion, Rory Francis
Bedwyr Gwilym, Kevin Baldwin
Ronwen D Roberts, Gareth W Jones a Will G Roberts

9492/02/16 YMDDIHEURIADAU: Mandy Williams-Davies

9493/02/16 DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gyngorydd Ddatgan Diddordeb

Cafodd y Rheolau Sefydlog eu rhoi o'r neilltuo i drafod Swyddfa'r Bost

9494/02/16 SWYDDFA'R POST
Croesawodd y Cadeirydd Mrs Gwen Rye a Mrs Emma Atkinson i roi diweddariad i'r Cyngor Tref ynglŷn â'u cais i gael ail leoli'r Swyddfa Bost o fewn archfarchnad Eurospar. Bydd holl wasanaethau Cownteri Swyddfa Bost ar gael yn Eurospar a bydd y gwasanaethau ar gael yn ystod holl oriau agor y siop. Gobeithir bydd staff presennol y Swyddfa Bost yn cael eu trosglwyddo i'r sale newydd os byddent yn dymuno gwneud hyn. Mae son bod y swyddfa dosbarthu yn debyg o symud i adeilad newydd ym Minffordd.
Diolchwyd iddynt am y wybodaeth a chroesawyd y fenter.

Ail osodwyd y Rheolau Sefydlog

9495/02/16 MATERION BRYD
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cyngor dderbyn e-bost gan Mr Gerallt Jones, Pennaeth Ysgol Tanygrisiau yn dweud bod pryderon mawr ynglŷn â cheir yn gyrru'n gyflym drwy'r pentref sydd yn ei gwneud yn anghyfforddus i oedolion a phlant cerdded at yr ysgol.
PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i yrru e-bost at Gyngor Gwynedd ynglŷn a hyn a'i drafod ymhellach mewn Is-Bwyllgor nos Iau 18^{fed} o Chwefror 2016.

Cafwyd gwybodaeth bod cyfarfodydd pellach ynglyn a Her Gwynedd i'w cynnal. Caiff cyfarfod lleol ei gynnal yn Ysgol y Moelwyn, nos Fawrth 8fed o Fawrth 2016 rhwng 6.00 ac 8.00 yr hwyr. Bydd hyn yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd ynglyn a'r toriadau a geir ar 3^{ydd} o Fawrth 2016.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

Cafwyd gwybodaeth bod cyfarfod o Bwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa i'w gynnal yng Nghylch yr Efail, nos Wener 12fed o Chwefror am 6.30 yr hwyr pan fydd pensaer yn bresennol i drafod y cynlluniau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9496/02/16 Y DREF WERDD

Yn anffodus, oherwydd rhesymau personol, ni fu i Mr Gwydion ap Wynn, Rheolydd Prosiect Y Dref Werdd roi diweddariad.

PENDERFYNIAD: Ei ail drefnu at fis Mawrth.

9497/02/16 MATERION YR HEDDLU / FFORWM HEDDLU

Cafwyd gwybodaeth bod y Clerc wedi cael sawl cyfarfod gyda'r Heddlu yn ddiweddar i drafod gwneud cais am arian tuag at loches ieuenctid i'r Parc Sglefrio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9498/02/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ARFEROL 14^{eg} IONAWR 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cyngorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cyngorydd Rory Francis yn eilio

9499/02/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION
CYFARFOD ANARFEROL 27^{ain} IONAWR 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cyngorydd Bedwyr Gwilym yn cynnig a'r Cyngorydd Kevin Baldwin yn eilio

9500/02/16 CYFRIFON I'W TALU

Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	128.91	Rhif Sic.	002171
Capel Pisgah (Hyrwyddo'r dref)	£	385.00	Rhif Sic.	002195
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	75.88	Rhif Sic.	002196
Nefyn Cleaning Services (Gwaith amrywiol)	£	552.00	Rhif Sic.	002197
K Jones (CCTV)	£	210.00	Rhif Sic.	002198
A M Coxon (Costau teithio)	£	38.86	Rhif Sic.	002199
Arian Parod	£	50.00	Rhif Sic.	002201
John Farrington (Tocio coed)	£	1202.00	Rhif Sic.	002205
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	101.60	Rhif Sic.	002206
BT (Llinell ffon)	£	140.15	Debyd Uniongyrchol	
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
TalkTalk (Ffôn)	£	30.85	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9501/02/16 ARIAN I MEWN

M Thomas (Rhent)	£	5.00
Cyngor Gwynedd (Llwybrau cyhoeddus)	£	3450.00

9502/02/16 IS-BWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Mwynderau
Nos Iau 21^{ain} Ionawr 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 21^{ain} IONAWR 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorydd:
Erwyn Jones	Bedwyr Gwilym
Mel Goch ap Meirion	Will G Roberts
Annwen Daniels	
Rory Francis	
Kevin Baldwin	
Phillip Glostner & Mike, Angry Scones Racing Team	

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gyngorydd Datgan Diddordeb

Penodwyd y Cynghorydd Kevin Baldwin i Gadeirio'r cyfarfod

1. Angry Scones Racing Team

Mae pryddles yr Angry Scones Racing Team ar fin dod i ben yn y Parc Sglefrio. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag ymestyn y bryddles am gyfnod o bum mlynedd ychwanegol. Roedd yr Is-Bwyllgor yn barod wedi gofyn i'r Angry Scones Racing Team gadarnhau eu bod yn cadw at delerau'r bryddles ac os byddent yn fodlon codi ffens neu sgrin neu reilen o amgylch y trac rasio i warchod defnyddwyr rhag ceir yn gadael y trac rasio ar gyflymder .

Argymell: Ar amod bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £2 miliwn mewn lle, gyda chopi o'r dystysgrif i'w roi i'r Cyngor Tref ac i'r Angry Scones Racing Team wneud cais i newid y caniatâd cynllunio i gynnwys ei ddefnyddio ar y Sul ac ar ôl 6.00, cytunwyd i gynnig pryddles am gyfnod o 5 mlynedd gan gychwyn ar 8fed Mawrth 2016. Yn y cyfamser cytunodd yr Angry Scones Racing Team i gadw at y cymalau sydd yn eu pryddles bresennol ac i roi copi o'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus i'r Cyngor Tref pob blwyddyn.

2. Parc Sglefrio

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Rhingyll Iwan Jones cafwyd cadarnhad bod yr heddlu yn awyddus iawn i gyd weithio gyda'r Cyngor Tref ynglŷn â'r Parc Sglefrio. Bydd cais am grant tuag at y gost o osod lloches ieuentid (os na fydd un wedi ei ddarganfod yn y cyfamser) yn cael ei wneud yn fuan. Mae arian pellach ar gael tuag at wasanaethau ieuentid ond mae rhan helaeth o hwn yn barod wedi ei glustnodi.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i gyd weithio a'r heddlu.

3. Sgwâr Rawson

Nid yw'r arwydd Sgwâr Rawson bydd wedi ei gwblhau a'i osod. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyfrifoldebau'r Cyngor Tref ar y darn tir yma ar ôl 1af Ebrill 2016. Mae angen ei chwynnu'n arw a phlannu yno nes at yr haf.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ynglŷn â'r arwydd gyda Chynghorydd am fynd a chopi arall o logo'r Cyngor Tref i gwmni Llechwedd. I gysylltu eto a Chyngor Gwynedd i gael gwybodaeth ynglŷn â ble aeth yr arian a glustnodwyd ar gyfer cynnal a chadw canol y dref.

4. Arwyddion

Bu i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ofyn am farn y Cyngor Tref ynglŷn â chais am gael gosod arwyddion wrth ddynesu at y dref.

Argymell: Bu i'r cyfarfod ddatgan eu siom bod cais uniaith Saesneg wedi ei wneud gyda gwallau wrth ysgrifennu enwau lleol. Mae'r Cyngor Tref yn barod wedi gwneud cais o'r un fath ac wedi cael gwybod bod y gost yn debygol o fod oddeutu £2000 ar gyfer pob arwydd oherwydd y gost gyfreithiol ar gyfer gosod arwyddion ar gefnffyrdd. Y Cynghorydd Kevin Baldwin i gysylltu â'r person a wnaeth y cais.

5. Rheilffordd

Cafwyd trafodaeth ar y cynnig gan y Cynghorydd Bedwyr Gwilym yng nghyfarfod arferol o'r Cyngor Tref ar 14^{eg} o Ionawr 2016 sef - 'Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol y llinell rhwng y Blaenau a Thrawsfynydd ym mis Gorffennaf 2015, a'r cwynion cynyddol sydd yn cael ei dderbyn gan drigolion lleol. Yr wyf yn galw ar Gyngor Tref Ffestiniog i lunio holiadur er mwyn canfod barn trigolion yr ardal ar ddyfodol y llinell ac i sicrhau bod pob un annedd o fewn ffiniau'r Cyngor yn derbyn o leiaf un holiadur drwy'r post.'

Argymell: Ni fyddai trefnu arolwg mawr am hyn yn ddefnydd da o adnoddau prin y Cyngor. I drafod sut gall cais gael ei wneud i'r Loteri Fawr gydag Antur Stiniog o gofio bod anawsterau gydag unrhyw brydles a gynigwyd iddynt wedi golygu nad oedd arian ar gael gan y Loteri Fawr, hwyrach byddai'n dda beth i ysgrifennu at ein Haelod Seneddol ar ôl trafod hyn gydag Antur Stiniog.

6. Gwirfoddolwyr

Cafwyd trafodaeth ar y cynnig gan y Cynghorydd Bedwyr Gwilym yng nghyfarfod arferol o'r Cyngor Tref ar 14^{eg} o Ionawr 2016 sef 'Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn nifer o glybiau, mudiadau, a gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn ein cymuned. Gyda hynny mewn golwg, 'rwyf yn galw ar y Cyngor Tref i gydnabod ac i ddathlu'r gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan wirfoddolwyr drwy sefydlu gwobrau 'Gwirfoddolwr y flwyddyn'. Nid yn unig fydd hyn yn dweud diolch, ond yn gyfle hefyd i hybu gwirfoddoli, gan annog eraill i wirfoddoli yn y gymuned.'

Argymell: Mae Is-Bwyllgor Adnoddau yn barod wedi clustnodi £750 yn y braesept ar gyfer hyn. I gytuno ar 5 categori ac i dderbyn dyluniad y poster ac i annog enwebiadau yn y flwyddyn ariannol newydd. I geisio trefnu cyngerdd i gyd fynd a'r gwobrau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

9503/02/16 PANEL STAFFIO

Gan fod y Panel Staffio diwethaf wedi ei ohirio, trefnu dyddiad newydd ar gyfer Panel Staffio.

PENDERFYNIAD: I gynnal Panel Staffio yn Siambr y Cyngor nos Fercher 17^{eg} o Chwefror 2016 am 7.00 o'r gloch.

9504/02/16 **CEISIADAU CYNLLUNIO**
DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gyngorydd Ddatgan Diddordeb

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C15/1338/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs G McLean
32 Heol yr Eglwys
Blaenau Ffestiniog
Cais i newid defnydd llawr gwaelod o siop i fflat hunan cynhaliol
Gwrthod

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9505/02/16 **UNLLAIS CYMRU**
Mae aelodaeth y Cyngor Tref o UnLlais Cymru angen ei adnewyddu erbyn 1^{af} Ebrill 2016. Y gost eleni yw £739 yn seiliedig ar 2605 o Anheddau trethadwy yn ol 28 ceiniog yr annedd (yn seiliedig ar Restr Brisio, nid Cofrestr Etholiadol)

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

9506/02/16 **LLYWODRAETH CYMRU**
Cafwyd gwybodaeth yn dilyn cyfarfod safle gyda Mr Iolo Tegid ar 2^{ail} Chwefror 2016, i drafod y llinellau melyn dwbl arfaethedig mewn sawl man yn y dref i leihau tagfa traffig a phroblemau gyda gyrwyr yn gwrthod ildio i draffig sydd yn dod i'w cwrdd. Bu i'r Cyngor gytuno ac argymhelliad ar gyfer y llinellau ym mis Ionawr a bydd y gwaith cyfreithiol yn cychwyn i symud ymlaen a hyn.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth.

9507/02/16 **LLYWODRAETH CYMRU**
Cafwyd gwybodaeth parthed cais am loches bws ym Methania a wnaethpwyd gan y Cyngorydd Bedwyr Gwilym yng nghyfarfod Ionawr o'r Cyngor Tref. Yn dilyn cyfarfod safle gyda Mr Iolo Tegid ar 2^{ail} Chwefror 2016 cafwyd gwybodaeth nad oes safle addas ar gyfer lloches bws yn yr ardal hon.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9508/02/16 **BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT**
Digwyddiad Ymgysylltu Cyngorau Tref a Chymuned
Cafwyd gwybodaeth gan y Clerc yn dilyn ei phresenoldeb mewn cyfarfod yn Llandudno i drafod y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Cafwyd gwybodaeth bod pryderon mawr gan glercod Cymru ynglyn a sut bydd ambell beth o fewn y Bil yn gweithio. Bydd cyfnod gwasanaeth cyngorwyr yn cael ei ymestyn i saith mlynedd gyda phob cyngorydd i gael hyfforddiant ar gyfer y swydd. Ni fydd yn bosib cyfethol cyngorwyr, pob un i gael ei ethol.

Disgwylir i'r cynghorau fod wedi uno ac wedi gallu darparu cyfrifon wedi eu harwyddo am ddwy flynedd erbyn 2023 - does dim cytundeb ar sut fydd y cynghorau sirol yn uno hyd yn hyn heb son am sut fydd cynghorau tref a chymuned yn uno.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9509/02/16 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod cyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa a Chyngor Cymuned Dolwyddelan a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei drefnu bellach. Bydd yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor Tref, dydd Mawrth 15^{fed} o Fawrth 2016 am 10.00 o'r gloch. Yn bresennol ar ran Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fydd Dr P Higson Cadeirydd, Mr Geoff Lang Cyfarwyddwr Strategaeth a Ms Ffion Johnston Cyfarwyddwr Ardal Gorllewin.

Bu i'r Grŵp Gweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth gynnal dau gyfarfod cymunedol yn y WI dydd Mawrth 9^{fed} o Chwefror. Ffurfiwyd Grŵp Gweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth mewn ymateb i bryderon lleol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Canolbarth Cymru.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9510//02/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cafwyd gwybodaeth bod Mr Gareth T Jones wedi cytuno i ysgrifennu'r darn 'amdanom ni' ar gyfer blynyddoedd cynnar y Cyngor ar gyfer y wefan.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9511/02/16 SGWÂR RAWSON

Gobeithir cael y plac ar gyfer Sgwâr Rawson wedi ei gwblhau gan Gwmni Llechwedd yn fuan. Mae trefniadau mewn llaw ar gyfer ei osod cyn gynted a bydd yn barod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9512/02/16 PARTNERIAETH Y PARC

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn llythyr gan Gadeirydd Partneriaeth y Parc yn cynnig £5000 i'r Cyngor Tref tuag at brynu siglen sy'n addas i blant anabl a chwrs golf gwirion.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i'w drafod ymhellach mewn Is-Bwyllgor Mwynderau nos Iau 18^{fed} o Chwefror 2016

9513/02/16 CAEAU CHWARAE

Cafwyd gwybodaeth bod ceisiadau grant ar y gweill i geisio cael arian ar gyfer lloches ieuentid yn y Parc Sglefrio. Ni yw'r Angry Scones Racing Team wedi dod a chopi o'u hyswiriant cyfredol felly mae unrhyw drafodaethau ar ymestyn eu prydles wedi eu dal yn ol ar hyn o bryd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9514/02/16 CYNGOR TREF PORTHMADOG

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn llythyr gan y Cynghorydd Selwyn Griffiths, Cadeirydd Cyngor Tref Porthmadog yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor mewn cyfarfod i wrthwynebu cau'r gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn Nhŷ Moelwyn, Porthmadog a'i drosglwyddo i Gaerdydd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9515/02/16 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith Chwefror 2016
Sgwâr Oakeley Newid llusernau golau stryd
Llwybr 52 Bryn Wennol Adnewyddu camfa

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9516/02/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Cafwyd adroddiad yn dilyn cyfarfod Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Tanygrisiau. Mae pryder mawr gan y rhieni ynglyn a cheir yn gyrru'n gyflym drwy'r pentref ac mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Heddlu ynglyn a hyn.

Mae sefyllfa annifyr yn y pentref ynglyn a phedoffeil sydd yn byw ger yr ysgol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9517/02/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Cafwyd gwybodaeth bod y toriadau ariannol angenrheidiol yn sgil Her Gwynedd yn creu pryderon mawr.

PENDERFYNIAD: Derbyd y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40 y.h.

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 10^{fed} MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 10^{fed} MAWRTH 2016
AR YR 3^{ydd} MAWRTH 2016**

